***Status:** This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1287 (Cy. 261) (C. 104)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2022

*Gwnaed* - - - - *6 Rhagfyr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 170(4)(a)(i), (4)(a)(v) a (4)(b)(viii) o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2022.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 1984" yw Deddf Adeiladu 1984(**2**).

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 9 Rhagfyr 2022

**2.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 i rym ar 9 Rhagfyr 2022—

(a) adran 31 (adeiladau risg uwch etc), i'r graddau y mae'n ymwneud ag adran 120I o Ddeddf 1984;

(b) adran 55 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol);

(c) yn Atodlen 5—

(i) paragraff 1;

(ii) paragraff 77 i'r graddau y mae'n ymwneud ag—

(aa) adran 120A o Ddeddf 1984 o ran Cymru, a

(bb) adran 120C o Ddeddf 1984;

(iii) paragraff 78 o ran Cymru;

(iv) paragraff 81(1) a'r diffiniadau o "appropriate national authority" a "higher-risk building" ym mharagraff 81(2), i gyd o ran Cymru.

(**1**) 2022 p. 30.
(**2**) 1984 p. 55.

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

6 Rhagfyr 2022

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwneir y Rheoliadau Cychwyn hyn gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (p. 30) ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 2 yn dod â nifer o ddarpariaethau o ran adeiladau risg uwch yng Nghymru i rym ar 9 Rhagfyr 2022. Sef, adran 31 o'r Ddeddf sy'n mewnosod adran 120I newydd yn Neddf Adeiladu 1984 ("Deddf 1984"), sy'n caniatáu Gweinidogion Cymru i ddiffinio "higher-risk building" at ddibenion Deddf 1984; adran 55 o'r Ddeddf; a'r paragraffau a ganlyn o Atodlen 5 i'r Ddeddf;

- paragraff 1;
- paragraff 77 i'r graddau y mae'n ymwneud ag—
  - adran 120A newydd o Ddeddf 1984 (gydag is-adrannau (1), (2), (3), (4), (6), (9) a (10) yn cael effaith o ran Cymru) sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer gwneud rheoliadau mewn perthynas ag adrannau penodol o Ddeddf 1984, gan gynnwys adran 120I(2), ac
  - adran 120C newydd o Ddeddf 1984 sy'n cynnwys gofynion ymgynghori ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 120I;
- paragraff 78 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i adran 121 o Ddeddf 1984, yn rhannol o ganlyniad i gychwyn adran 120I newydd;
- paragraff 81(1) sy'n diwygio adran 126 o Ddeddf 1984 i fewnosod diffiniadau penodol newydd a pharagraff 81(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â'r diffiniadau o "appropriate national authority" a "higher-risk building".

**NODIADAU AM Y RHEOLIADAU CYCHWYN CYNHARACH**

*Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym o ran Cymru drwy Reoliadau Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Rheoliadau hyn.*

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 132 (at ddibenion gwneud rheoliadau) | 28 Mai 2022 | 2022/561 |
| Adran 2(2) ac Atodlen 1 | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adrannau 130 a 131 | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 132 (at yr holl ddibenion sy'n weddill) | 28 Mehefin 2022 | 2022/561 |
| Adran 48 | 28 Gorffennaf 2022 | 2022/774 (Cy. 169) |